Y Pwyllgor Cyllid | Finance Committee
FIN(5)-31-19 PTN1

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf /Your ref
Ein cyf /Our ref: MA/RE/5507/19

Llŷr Grufydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

25 Tachwedd 2019

Annwyl Llŷr,

Yn unol â'r arfer sefydledig, rwyf yn bwriadu cyhoeddi Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2019-20. Mae'r llythyr hwn yn eich hysbysu ymlaen llaw o'm bwriad, gan roi amser ichi gynllunio ar gyfer y gwaith craffu priodol.

Prif ddiben yr Ail Gyllideb Atodol fydd adlewyrchu newidiadau cyllidebol ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin. Bydd yn nodi nifer o ddyraniadau o'n cronfeydd wrth gefn, trosglwyddiadau rhwng portffolios Llywodraeth Cymru a throsglwyddiadau gydag adrannau Llywodraeth y DU. Bydd hefyd yn cynnwys rhagolygon diwygiedig ar gyfer Gwariant a Reolir yn Flynyddol. Bydd hefyd yn cynnwys diwygiadau i ragolygon trethi datganoledig, yr Addasiad i'r Grant Bloc, cronfeydd a dynnir o Gronfa Wrth Gefn Cymru, a benthyca arfaethedig o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol.

Rwyf yn bwriadu cyflwyno'r Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2019-20 ar 4 Chwefror. Caiff y gyllideb ei chyhoeddi hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru ar yr un diwrnod.

O gofio toriad y gwanwyn, rwyf wedi cytuno y bydd y cynnig ar gyfer yr Ail Gyllideb Atodol yn cael ei symud ymlaen wythnos, i 3 Mawrth. Mae hyn yn darparu wythnos arall ar ôl y cyfnod o dair wythnos a nodir yn y Rheolau Sefydlog.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gobeithio y bydd y diweddariad hwn yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir,

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd